

Hyfforddiant ar-lein Alergeddau ac Anoddefiadau Bwyd Canllaw defnyddwyr

Cynnwys

Iaith	2
Cofrestru	2
Cefnogaeth dechnegol	4
Dechrau arni	4
Modiwlau'r cwrs	5
Trawsgrifiadau	6
Profion	6
Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)	6

Iaith

Mae'r hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. I newid yr iaith i'r Gymraeg, symudwch y cyrchwr dros y gair 'Saesneg (en)', yng nghornel dde uchaf y dudalen, a dewiswch 'Cymraeg (cy)'.


Ffigur 1. Ciplun o'r botymau dewis iaith



Cofrestru

1. I gofrestru a chreu cyfrif cliciwch y botwm 'Mewngofnodi' ar ochr dde uchaf y dudalen groeso.

Ffigur 2. Ciplun o'r botwm mewngofnodi



2. Cliciwch y botwm 'Creu cyfrif newydd'.

Ffigur 3. Ciplun o'r adran cyfrif newydd

Ai dyma eich tro cyntaf yma?

I gael mynediad llawn i'r wefan hon, bydd angen i chi greu cyfrif yn gyntaf.

[Creu cyfrif newydd](#)

3. Dewiswch enw defnyddiwr a chyfrinair. Rhaid i'ch cyfrinair gynnwys o leiaf wyth nod a rhaid iddo gynnwys o leiaf un digid, un llythyren fach, un brif llythyren ac un nod nad yw'n alffaniwmerig.
4. Cwblhewch yr adran 'Rhagor o fanylion'. Mae'n orfodol i chi nodi eich cyfeiriad e-bost, eich enw cyntaf a'ch cyfenw.

Ffigur 4. Ciplun o'r sgrin cyfrif newydd

Cyfrif Newydd

Mae meysydd gofynnol yn y ffurflen hon wedi eu marcio *.

▼ Dewiswch enw defnyddiwr a chyfrinair

Enw Defnyddiwr * ✘
- Enw defnyddiwr ar goll

Rhaid i'r cyfrinair gael o leiaf 8 nod, o leiaf 1 rhif, o leiaf 1 llythyren fach, o leiaf 1 priflythyren, o leiaf 1 nod nad yw'n llythyren nac yn rhif

Cyfrinair * ✘
- Cyfrinair ar goll

▼ Mwy o fanylion

Cyfeiriad e-bost *

E-bost (eto) *

Enw cyntaf *

Cyfenw *

Dinas/tref

Gwlad ⌵

[Creu fy nghyfrif newydd](#)

[Canslo](#)

Canllaw defnyddwyr

5. Ar ôl cofrestru, byddwch chi'n cael neges e-bost groeso gyda dolen i weithredu eich cyfrif. Cliciwch ar y ddolen hon neu copi'wch hi a'i gludo i mewn i'ch porwr ac fe gewch eich mewngofnodi'n awtomatig i'ch cyfrif. Os na chewch yr e-bost hwn, gwiriwch eich ffolder sothach.
6. Os byddwch chi'n anghofio'ch enw defnyddiwr a/neu eich cyfrinair, gallwch chi eu hailosod trwy glicio ar y ddolen 'Wedi anghofio eich enw defnyddiwr neu eich cyfrinair?'.

Ffigur 5. Ciplun o'r sgrin mewngofnodi

Username / email

Cyfrinair

Cofio'r enw defnyddiwr

Mewngofnodi

[Ydych chi wedi anghofio'ch enw defnyddiwr neu gyfrinair?](#) ←

Rhaid galluogi briwsion yn eich prowr. [?](#)

Cefnogaeth dechnegol

Os cewch unrhyw broblemau technegol, anfonwch e-bost at:
fsasupport@indeg.co.uk

Dechrau arni

O'r hafan ewch i brif ddewislen y cwrs trwy glicio'r botwm 'Cwblhau'r arolwg a chychwyn y cwrs'.

Ffigur 6. Ciplun o'r botwm 'Cwblhau'r arolwg'

Cwblhau'r arolwg a chychwyn y cwrs

Mae'r arolwg yn ddiennw a bydd yn ein helpu i ddeall pa grwpiau defnyddwyr sy'n defnyddio'r hyfforddiant ac yn ein helpu i wneud gwelliannau i'r dyfodol. Dewiswch y botwm 'Dechrau'r arolwg'.

Ffigur 7. Ciplun o'r adran 'Dechrau'r arolwg'

Home ⚙️ Full screen

Hyfforddiant alergedd ac anoddefiad bwyd

Mae'r arolwg yn ddiennw a bydd yn ein helpu i ddeall pa grwpiau defnyddwyr sy'n defnyddio'r hyfforddiant ac yn ein helpu i wneud gwelliannau i'r dyfodol.

[Dechreuwch yr arolwg](#)

Bydd y modiwlau'n ymddangos unwaith y bydd yr arolwg wedi'i gwblhau.

Ffigur 8. Ciplun o sgrin modiwlau'r cwrs



Modiwl 1: Effeithiau alergeddau yn y corff

- [Modiwl cychwyn 1](#)
- [Cychwyn modiwl 1 cwis](#)
- [Gweld trawsgrifiad](#)



Modiwl 2: Rheolau ar gyfer gwybodaeth am alergenau

- [Modiwl cychwyn 2](#)
- [Cychwyn modiwl 2 cwis](#)
- [Gweld trawsgrifiad](#)



Modiwl 3: Rheoli alergenau yn y ffatri

- [Modiwl cychwyn 3](#)
- [Cychwyn modiwl 3 cwis](#)
- [Gweld trawsgrifiad](#)

Modiwlau'r cwrs

Mae'r modiwlau sy'n rhan o'r hyfforddiant hwn yn ymdrin â chwe thema:

- Modiwl 1 – Effeithiau alergeddau yn y corff
- Modiwl 2 – Rheolau ar gyfer gwybodaeth am alergenau
- Modiwl 3 – Rheoli alergenau yn y ffatri
- Modiwl 4 – Darparu gwybodaeth gywir am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw
- Modiwl 5 – Rheoli alergenau mewn amgylchedd arlwyo
- Modiwl 6 – Defnyddio labelu gwirfoddol

Canllaw defnyddwyr

Mae pob modiwl yn cynnwys gwersi cryno, gan gynnwys:

- cyflwyniad gydag amcanion y modiwl
- prawf gwybodaeth i chi brofi eich dealltwriaeth o'r hyn rydych wedi'i ddysgu
- crynodeb o'r canlyniadau dysgu

Ar ôl i chi astudio pob modiwl byddwch chi'n barod i sefyll prawf y modiwl perthnasol, sy'n cwmpasu deunydd o'r modiwl.

Gallwch chi gwblhau'r hyfforddiant ar un cynnig neu mewn darnau bach a dychwelyd yn ddiweddarach.

Trawsgrifiadau

Darperir trawsgrifiadau o'r modiwlau hefyd ar brif ddewislen y cwrs o dan bob modiwl. Mae'r trawsgrifiadau hyn wedi'u creu i'w defnyddio gyda thechnoleg gynorthwyol, fel darllenwyr sgrin, neu fel dull dysgu amgen, gan gynnwys gweithio all-lein.

Os ydych chi'n defnyddio'r trawsgrifiadau, bydd dal angen i chi gwblhau'r profion ar-lein.

Profion

Gallwch gyrchu'r profion a aseswyd ar gyfer pob modiwl drwy'r ddolen ar ddiwedd y modiwl neu drwy brif ddewislen y cwrs. Mae'r profion yn asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o gynnwys y modiwl. Ni chewch eich profi ar unrhyw wybodaeth o'r gwefannau allanol na'r dogfennau PDF a ddarperir yn ystod yr hyfforddiant.

Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Os atebwch 85% neu fwy o'r holl gwestiynau yn gywir ar y profion ar ddiwedd y modiwl, byddwch chi'n gallu lawrlwytho tystysgrif Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ddangos eich gwybodaeth. Sylwch fod yn rhaid i chi gwblhau a phasio pob un o'r 6 phrawf modiwl i gael eich tystysgrif.

Ar ôl i bob un o'r 6 phrawf modiwl gael eu pasio'n llwyddiannus, bydd botwm yn ymddangos ar yr hafan i'ch galluogi i lawrlwytho'ch tystysgrif. Bydd angen i chi glicio ar y botwm 'Lawrlwytho tystysgrif' ac yna clicio ar y botwm 'Gweld tystysgrif' a fydd yn ymddangos. Sylwch na fydd eich tystysgrif yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost. Os nad yw'ch tystysgrif wedi ymddangos, gwiriwch eich bod wedi cwblhau a llwyddo yn yr holl brofion modiwl.

Ffigur 9. Ciplun o'r adran dystysgrif

Tystysgrif

Bydd y dystysgrif ond yn ymddangos ar ôl i chi gwblhau pob prawf yn llwyddiannus.

Llongyfarchiadau ar gwblhau'r hyfforddiant.

Wedi'i gwblhau 31/03/2021	Lawrlwytho'r Dystysgrif
---------------------------	-------------------------

Ffigur 10. Ciplun o'r sgrin 'Gweld tystysgrif'

Cwblhau'r hyfforddiant

Llongyfarchiadau ar gwblhau'r hyfforddiant. Mae manylion yr hyfforddiant rydych chi wedi'i gwblhau yn flaenorol i'w gweld yn y tabl isod.

Dyddiad cwblhau	Adolygu	Eich tystysgrif
31/03/2021	Gweld eich hyfforddiant	Lawrlwytho'r dystysgrif

Gallwch chi gwblhau'r hyfforddiant a/neu'r profion eto ar unrhyw adeg a chael tystysgrif newydd (os yw'r profion yn cael eu pasio'n **llwyddiannus**). Fel arall, gallwch ddiweddarau eich dealltwriaeth o fodiwlau penodol ar unrhyw adeg.

Os ydych chi'n dymuno ail-afael yn yr hyfforddiant a chael tystysgrif newydd gyda dyddiad wedi'i ddiweddarau, cliciwch ar y botwm 'Ailgychwyn yr hyfforddiant' ar waelod y blwch tystysgrif.

Ffigur 11. Ciplun o'r adran 'Ailgychwyn hyfforddiant'

I gael tystysgrif newydd gyda'r dyddiad diweddaraf, bydd angen i chi ail-wneud yr hyfforddiant

Ailddechrau'r hyfforddiant